

Tasg 2

Blasus?!

Parti ... parti ... parti

1. Pa fath o bobl yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn y fforwm, yn eich barn chi?
Rhowch resymau dros eich atebion.

2. Pwy yn y darn sy'n hoffi bwyta'n iach?
Rhowch resymau i gefnogi'ch atebion.

3. Ar ôl trafod bwyd, mae Chris yn dweud bod angen trafod adloniant ac addurniadau ar gyfer y parti.

- Meddyliwch am y thema: Siocled.
- Gyda'ch partner, cynlluniwch adloniant (Gemau? Gwisg ffansi? Adloniant arall – beth?)
- Cymharwch eich syniadau chi â syniadau'ch partner chi.

4. Dyluniwch wahoddiad ar gyfer y parti hwn.

Yn gyntaf, penderfynwch:

- pa wybodaeth mae angen i chi ei chynnwys
- pa batrymau iaith byddwch chi'n eu cynnwys.

Gwnewch y gwahoddiadau.

5. Edrychwch ar wahoddiadau'ch gilydd a gwerthuswch nhw. Dywedwch ddau beth da am bob un ac awgrymwch sut y gellid gwella arnyn nhw.